


# Polisi
# Disgyblion Coll

**Dyddiad y derbyniwyd gan y Corff Llywodraethol:** 5 Rhagfyr 2018

Llofnod y Cadeirydd: ______________________

**Dyddiad y mabwysiadwyd gan y Corff Llywodraethol:** 28 Mawrth 2019

Llofnod y Cadeirydd: ________________________

**Dyddiad yr adolygwyd gan y Corff Llywodraethol:**

Llofnod y Cadeirydd: __________________________

# POLISI DISGYBLION COLL

**GWEITHREFN DISGYBLION**

Pob tiwtor dosbarth i gwblhau cofrestru yn gywir ac amserol yn y sesiwn gofrestru am 9:00yb (uchafswm o 10 munud) CADWCH y gofrestr.
Os oes gwasanaeth, ac mae'r disgyblion yn hwyr, mae'n rhaid iddynt fynd i dderbynfa'r ysgol i gofrestru yn hwyr.

**GWERSI**

Pob athro pwnc i gofrestru disgyblion ar ddechrau gwersi gan ddefnyddio'r codau cywir. Gwnewch yn siwr eich bod yn cymryd y gofrestr yn y 10 munud cyntaf. Os nad yw disgybl yn bresennol yn eich gwers ac nad oes côd ar ei gyfer, cysylltwch gyda'r swyddfa.

**Beth sy'n digwydd wedyn?**

- Pan fydd y swyddfa yn cael yr alwad ffôn i nodi nad yw disgybl yn y wers bydd y disgybl yn cael galwad ar y tanoi yn syth.
- Caniateir uchafswm o 10 munud i ddisgyblion adrodd i'r dderbynfa ac i'r staff sydd ar gael i chwilio ardaloedd allweddol.
- Os na fydd disgyblion yn adrodd i'r dderbynfa, neu os nad ydynt wedi eu lleoli, bydd aelod o'r UDA yn:
  **1.** Ffonio rhieni / gwarchedwaid – gadael neges os nad oes ateb
  **2.** Rhybuddio heddlu
  **3.** Rhoi gwybod i bob asiantaeth berthnasol, e.e. gweithiwr cymdeithasol.

**Pwy all helpu yn ystod gwersi?**

- Swyddog Presenoldeb, Iechyd a Lles
- Staff y swyddfa
- UDA
- Penaethiaid blwyddyn
- Athrawon sydd ar gael

**Fodd bynnag**
Cyfrifoldeb pawb yw sicrhau cofrestri presenoldeb yn cael eu cwblhau'n brydlon ac yn gywir adeg cofrestru a phob gwers. Oni bai bod hyn wedi'i wneud, yna gall yr holl gamau dilynol fod yn seiliedig ar wybodaeth anghywir a gallai achosi risg diogelu difrifol.


PRESENOLDEB
mewn gwersi
1


Mae
presenoldeb
ymhob gwers
yn holl
bwysig.

## Presenoldeb mewn gwersi

Os ydych wedi cofrestru yn y bore, a ddim yn bresennol mewn gwers, yna bydd yr athro pwnc yn cysylltu gyda'r swyddfa o fewn deg munud cyntaf y wers.



3

## Presenoldeb mewn gwersi

Os na fyddwch wedi cyrraedd y wers erbyn hynny, byddwch yn cael eich galw ar y tanoi i fynd i'r dderbynfa.



4

## Presenoldeb mewn gwersi

Bydd yr ysgol yn ffonio eich rhieni os na fyddwch wedi cyrraedd y Dderbynfa o fewn deg munud ac mewn rhai achosion byddwn yn ffonio'r heddlu.



## Presenoldeb mewn gwersi

Os oes achos gyda chi i beidio bod yn y wers, e.e. gwers offerynnol, apwyntiad o fewn yr ysgol, yna mae'n HOLL bwysig eich bod yn mynd i weld eich athro pwnc cyn hynny



## Presenoldeb mewn gwersi

RHAID gofyn caniatad eich athro pwnc CYN mynd at y nyrs. RHAID cael caniatad y nyrs cyn eich bod yn medru mynd adref oherwydd salwch



## Presenoldeb mewn gwersi

Os oes angen i chi adael safle'r ysgol yn ystod y dydd e.e. apwyntiad meddygol, yna rhaid i chi ddangos llythyr gan eich rhiant i'r dderbynfa a rhaid iddo gael ei arwyddo




TEIMLO'N BRYDERUS? TEIMLO'N ISEL?
• Mae cefnogaeth ar eich cyfer – nyrs ysgol, mentoriaid y chweched, tiwtoriaid dosbarth, pennaeth blwyddyn, PC Cath, cwnselydd, nyrs iechyd.
9


Cofiwch am eich swyddogion amddiffyn plant – maent yno i wrando
Dr Llinos Jones
Mr Jonathan Thomas
Mr Euryn Madoc-Jones
Miss Zelda Williams
Mrs Rhian Carruthers
10